

Cynllun ANELU AM 95+%

Annwyl Riant/Ofalwr

Fel staff a Chorff Llywodraethu, rydym yn cefnogi Prosiect Gwella Presenoldeb **ANELU AM 95+%** **Torfaen**. Carwn atgoffa pob rhiant mor bwysig yw sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol a'n bod wedi ymrwymo i addysg y plant. Gofynnwn i rieni osod y disgwyliadau uchaf o ran presenoldeb ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Ein targed presenoldeb i'r ysgol gyfan ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/2018 yw:

95.7%

Ein targed ar gyfer eich plentyn yw presenoldeb o 95%, o leiaf, eleni!


Yn atodol, ceir tabl a siart sy'n dangos y berthynas rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol. Fel y gwelwch, mae yna berthynas glir rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol. Mae copi o'r holl wybodaeth ar ein gwefan hefyd. Elfen allweddol o'r prosiect hwn yw y byddwn yn eich diweddarau ynghylch presenoldeb eich plentyn bob hanner tymor.

Yn yr ysgol, byddwn yn dathlu presenoldeb da trwy roi tystysgrifau. Rydym hefyd yn tynnu sylw at bresenoldeb da yng ngwasanaethau boreol yr ysgol.

Mae buddion presenoldeb da yn amlwg.


Mae disgyblion yn fwy tebygol o fwynhau'r ysgol, cyflawni gwell canlyniadau a sicrhau gwell siawns mewn bywyd.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, neu os hoffech gymorth gyda phresenoldeb eich plentyn, mae croeso i chi ffonio'r ysgol i drefnu apwyntiad i weld <rhoch yr enw yma>, ein swyddog cymorth bugeiliol.



Cynllun ANELU AM 95+%

Mae diwrnodau i ffwrdd o'r ysgol yn golygu colli cyfleoedd dysgu



Yn gywir iawn

C N Evans

Pennaeth